**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**National Assembly for Wales**
Constitutional and Legislative Affairs Committee

Y Gwir Anrhydeddus Alun Cairns AS
Ysgrifennydd Gwladol Cymru
Swyddfa Cymru
Gwydyr House
Whitehall
London
SW1A 2NP

5 Gorffennaf 2016

Annwyl Alun

**Bil Cymru**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 30 Mehefin, a anfonwyd at fy rhagflaenydd, David Melding AC, ac a ddaeth i law ar 5 Gorffennaf.

Fel y gwyddoch, rydym wedi mynegi ein pryder difrifol a'n siom nad ydych, hyd yma, wedi gallu derbyn ein gwahoddiad i roi tystiolaeth ar Fil Cymru – darn o ddeddfwriaeth gyfansoddiadol sylweddol sydd â goblygiadau arwyddocaol i'r Cynulliad.

Cafodd ein pryder ei ddwysáu gan ddau ddatblygiad: yn gyntaf, cyflymder y gwaith craffu yn Nhŷ'r Cyffredin, sy'n lleihau'r cyfnod o amser ar gyfer rhoi ystyriaeth ystyriol a phwyllog i ddarn sylweddol o gyfraith gyfansoddiadol; yn ail, gan y dystiolaeth yr ydym eisoes wedi'i gael ar y Bil gan y Prif Weinidog ac ymarferwyr cyfreithiol ac academyddion enwog, y cyfeiriwn atynt isod.

Er ein bod yn sylweddoli eich bod yn brysur iawn, rydym wedi bod, ac yn parhau i fod yn hynod hyblyg o ran dyddiadau ac amseroedd. Rydym hefyd wedi rhoi'r cyfle ichi roi tystiolaeth drwy gynhadledd fideo fel dewis arall, a gobeithiwn y gall hyn fod yn bosibl o hyd os na allwch fod yn bresennol yn bersonol.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddMCD@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddMCD
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCLA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCLA
0300 200 6565

Rydym yn ymwybodol eich bod yn dod i annerch y Cynulliad ar 6 Gorffennaf, ac rydym yn dal i fod yn ansicr pam na allwch roi tystiolaeth inni ar y diwrnod hwnnw, yn enwedig yn wyneb y dyhead clir a fynegwyd gennych – fel eich rhagflaenydd a wnaeth ymddangos gerbron y Pwyllgor hwn – i fabwysiadu agwedd agored ac adeiladol tuag at y Bil.

Mae'r Bil yn ddatblygiad cyfansoddiadol sylweddol i Gymru, ac mae'n hanfodol bod y Cynulliad yn cael y cyfle i ystyried y Bil a'r goblygiadau i Gymru. Rydym wedi creu perthynas gyda rhanddeiliaid allweddol a dinasyddion Cymru, sydd o gymorth i lywio ein gwaith craffu, a theimlwn y bydd dod â'r arbenigedd hwn i graffu ar y Bil, o gymorth i Lywodraeth y DU sicrhau'r setliad parhaus a chadarn yr ydych chi, a ninnau, yn ei geisio.

Rydym eisoes wedi clywed tystiolaeth glir ac awdurdodol y gallai'r Bil, er ei fod yn welliant i'r Bil drafft mewn rhai mannau, effeithio'n negyddol ar y setliad datganoli presennol, fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd. Mae pryderon sylweddol yn parhau ynglŷn â chymhlethdod diangen y Bil, ei natur barhaol, a'r posibilrwydd y bydd yn effeithio'n andwyol ar allu'r Cynulliad i ddeddfu mewn modd cydlynol a chydgysylltiedig. Credwn y byddai'r cyfle i ymchwilio i'r materion hyn gyda chi'n uniongyrchol o fudd i ddatblygiad y Bil a byddai o gymorth i gyflawni ein nod cyffredin o geisio setliad teg i Gymru.

Os na allwn eich darbwyllo i ymddangos ger ein bron i egluro effaith y Bil ar y setliad datganoli presennol, bydd yn rhaid i'n hadroddiad egluro bod eich penderfyniad i beidio â bod yn bresennol wedi effeithio ar hyn.

Gobeithiaf y byddwch yn ymateb yn ffafriol i'r cais pellach hwn.

Yn gywir

Huw Irranca-Davies

**Huw Irranca-Davies AC**
**Cadeirydd**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.